

## 12 - Llangernyw i Eglwysbach 7.5 milltir/12 km

Ewch yn ôl tuag at Blas Hafodunos ar y ffordd y daethoch. Ar ôl pasio'r ystâd dai fechan yn Fedwen Arian ar eich ochr chwith, cymerwch y trac i'r dde heibio i'r bwthyn. Dilynwch y llwybr troed yma i fyny'r allt, gan basio ar ochr dde adfeilion ffermdy Crei.

Mae'r llwybr yn mynd yn syth tuag at y gefnen gan anelu am y polyn trydan. Wrth y ffens trowch i'r dde a dilyn y ffens drwy eithin at gamfa ac yna i ochr y bryn. Dilynwch y llwybr i'r lôn. Trowch i'r chwith ar hyd y lôn yma a'i ddilyn i'r gyffordd gyda'r B 5113. Croeswch y ffordd a'i dilyn gan basio Gosen a Bwthyn Tŷ yn y Mynydd ac i lawr allt serth. Ar ôl y troad tynn, cymerwch y ffordd i'r dde a dilyn hon tuag at y Cathdy ym Mryn-gwian.

Ar ôl pasio'r cathdy mae'r ffordd yn troi'n drac sy'n mynd heibio pwll hwyaid. Dewiswch y fforch i'r chwith bron yn syth wedyn ac yna ewch yn eich blaen rhwng y ffermdy a'r adeiladau yn Nhŷ Mawr. Nawr mae'r trac yn troi i lawr yr allt gan basio tŷ arall ar eich ochr chwith. Pan fyddwch yn cyrraedd cyffordd y traciau, trowch i'r dde i fyny'r allt i Ebrill Esgair.

Ewch i'r chwith yn union cyn y ffermdy ac yna rhwng yr adeiladau i fynd drwy'r giât ar y dde. Dilynwch y llwybr yma i groesi nant (sydd yn sych yn aml iawn) ac yna dros gae ar hyd llwybr amlwg. Rydych yn anelu am y peilon yn y pellter. Pan ddewch at giât gyda chyfeirbwynt yn pwyntio i'r dde, peidiwch â mynd drwyddi! Cerddwch ymlaen i'r dde i gerdded gyda'r gwrych ar eich ochr chwith. Dilynwch hwn i fynd drwy giât arall i lôn a thoi i'r chwith.

Ewch i lawr yr allt a thrwy giât i ochr dde ffermdy Tŷ Du. Cerddwch ar hyd y ffens yma ac, mewn pellter o oddeutu 40 metr, ewch drwy giât cerddwyr i groesi pont droed i mewn i goedwig. Dilynwch y llwybr drwy'r coed ac i mewn i gae. Ewch yn lletraws i'r dde i fyny'r allt tuag at y polyn trydan. Yna ewch drwy giât fferm a phasio'r ffermdy yn Llwyn Du i lôn.

Croeswch y lôn yma i lôn werdd gyda giât. Dilynwch hon i lawr yr allt nes cyrhaeddwch droad tynn i'r chwith. Yma, trowch i'r dde i fyny'r allt ac ar hyd ochr y goedwig. Yna mae'r llwybr yn gwyro i'r chwith ac yn parhau drwy'r goedwig at lôn. Ewch i'r chwith i ddilyn y lôn yma'n serth i lawr yr allt i bentref Eglwysbach.